| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 25-09-2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| **ADRODDIAD GAN:** | Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd, Gwastraff & Eiddo<br>huwpercy@ynysmon.llyw.cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Julie Jones, Rheolwr Busnes a Strategaeth Gwasanaeth, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>juliejones@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Yn unol a chyfansoddiad y Cyngor mae angen i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

## 2. ARGYMHELLION

2.1. Y bod y Cyngor yn mabwysiadu y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru Gorffennaf 2025.

## 3. CEFNDIR

3.1. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyd-fynd â chynllun Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 (STC), sef dogfen sy'n darparu'r cyfeiriad strategol, y weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru.

3.2. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ddogfen strategol lefel uwch yn benodol ar gyfer Gogledd Cymru a sy'n gosod y weledigaeth ar gyfer y rhanbarth ac yn darparu'r cyfeiriad ar gyfer y 5 mlynedd nesaf o ran blaenoriaethau ac ymyriadau o fewn rhannau gwahanol y system drafnidiaeth.

3.3. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd er mwyn gallu cyflawni swyddogaethau penodol llywodraeth leol ar y cyd ar lefel ranbarthol. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) ar 1 Ebrill 2021 ac mae arno ddyletswydd statudol o baratoi:

- Cynllun Datblygu Strategol
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Yn ogystal, mae ganddynt y pŵer i wneud unrhyw beth a fydd yn gwella neu'n hybu lles economaidd rhanbarthol.

Mae'r CBC wedi sefydlu ei Is-bwyllgorau Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

3.4. Y CBC sydd felly'n arwain ar a llywodraethu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac maent wedi paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a sydd wedi ei gynnwys fel Atodiad A i'r adroddiad hwn.

3.5. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu polisïau y CBC mewn perthynas o thrafnidiaeth a'i amcanion i wella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol, gwella hygyrchedd a'r dewis o drafnidiaeth, galluogi datgarboneiddio, a meithrin twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol ar draws y rhanbarth. Dyma fydd yn gyrru penderfyniadau'r CBC yn rhanbarthol drwy'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth a penderfyniadau Awdurdodau Lleol. Dylid nodi bod gan y CBC ddim dylanwad uniongyrchol dros isadeiledd rhwydwaith rheilffyrdd nac y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Ngogledd Cymru, gan eu bod yn faterion cenedlaethol a bod cyfrifoldeb am y rhain yn syrffio gyda cyrff eraill.

3.6. Fel rhan o baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol bu'r CBC gynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Ionawr a Ebrill 2025. Yn ogystal a rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ymysg ei Aelodau, gweithlu, a'r cyhoedd, a hynny drwy gynnal dau sesiwn galw i mewn, e-bostio'r linc i'r ymgynghoriad i Aelodau a'r gweithlu, a rhoi cyhoeddusrwydd ar ein gwefan a cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, mi ddaru'r Cyngor ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae copi o'r ymateb hynny wedi ei gynnwys fel Atodiad B i'r adroddiad hwn ond nodir y prif bwyntiau fel:

3.6.1. Croesewir bod heriau gwledig wedi eu hadnabod a bod cyfle am welliannau, ond amlygu fod angen rhyng-gysylltiad rhwng dulliau trafnidiaeth er mwyn hwyluso system drafnidiaeth fwy effeithiol mewn ardaloedd gwledig.

3.6.2. Cefnogi'r uchelgais i greu Trydedd Bont dros y Fenai er mwyn gwella gwytnwch, amser teithio a chapasiti ond nodi'r angen am gyfleusterau parcio dros dro addas ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm y naill ochr i'r Fenai pe bai pont neu'r Porthladd ar gau.

3.6.3. Croesewir gwelliannau i gefnogi twf y porthladd, yr orsaf reilffordd a safleoedd Porthladd Rhydd ond nodi gall hyn gynyddu'r nifer y llwythi fydd yn cael eu cludo ac felly bod angen prif gynllun hollgynhwysol ar gyfer y porthladd a'r orsaf drenau ehangach.

3.6.4. Nodi siom fod y cynigion i gwelliannau seilwaith rheilffyrdd yn cael eu blaenoriaethu i'r dwyrain o Gyffordd Llandudno ac felly ddim yn ystyried pwysigrwydd Gorsaf Reilffordd Caergybi fel cysylltiad pwysig i deithwyr rhyngwladol deithio ymlaen o/i Iwerddon i weddill y DU neu hyd yn oed i Ewrop trwy Lundain ac i'r Porthladd rhydd Ynys Môn.

3.6.5. Nodi fod angen mwy o hyblygrwydd o ran y Canllawiau Dylunio Teithio Llesol yng nghefn gwlad Cymru er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol gwledig yn gallu datblygu llwybrau teithio llesol yn llwyddiannus er budd yr holl ddefnyddwyr posibl, a chydnabod bod yr anghenion a'r math o ddarpariaeth sy'n briodol ar gyfer ardaloedd gwledig yn wahanol i'r un mewn aneddiadau trefol mwy.

3.6.6. Croesewi'r cynnwys Hwb Hydrogen Caergybi a cefnogi fod angen ffocws a dyhead i gynyddu buddsoddiad yn y seilwaith i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan a nodi bod heb fuddsoddiad yn y seilwaith sylfaenol mae perygl y bydd ardaloedd gwledig yn cael eu gadael ar ôl a bydd hyn yn creu rhwystrau mewn ardaloedd hynny.

3.6.7. Nodi fod angen eglurder pellach ar ble y bydd y capasiti a'r adnoddau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni yn dod, a pwysleisio bod angen dull penodol i sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n deg.

3.7. Nodir fod y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd wedi ei gynnwys fel Atodiad C i'r adroddiad hwn o bwysigrwydd allweddol o ran prosiectau dylanwadol fydd yn ceisio gwella cysylltiadau a chysylltedd trafnidiaeth ledled y rhanbarth, gan gynnwys ar Ynys Môn. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn uchelgeisiol a bydd ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar i ba raddau mae'r Cynllun Cyflawni'n cael ei weithredu yn ystod y 5 mlynedd nesaf, sydd wrth gwrs yn ddibynnol ar gyllid. Er bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ar sut bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid rhwng y 4 CBC, a sut bydd CBC Gogledd Cymru yn dyrannu cyllid rhwng prosiectau rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol, nid yw hyn wedi ei benderfynu hyd yma.

3.8. Mae swyddogion y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn cefnogi mabwysiadu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ond yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, mater i'r Cyngor llawn yw ei gymeradwyo.